# 8. Cwestiynau Cyffredin (FAQs)



## Y Rheol Trais Domestig a’r Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd (DDVC)

### Beth yw’r gwahaniaeth rhwng y Rheol Trais Domestig a’r Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd (DDVC)?

Darpariaeth yn y Rheolau Mewnfudo yw’r Rheol Trais Domestig sy’n caniatáu unigolion cymwys i ymgeisio am ganiatâd amhenodol i aros yn y DU fel goroeswr camdrin domestig. Mae sicrhau caniatâd amhenodol i aros yn rhoi’r un hawl i fudwyr gael tai cymdeithasol, budd-daliadau lles, gwaith, rhentu a gofal iechyd ag unrhyw ddinesydd Prydeinig.

Mae’r Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd (DDVC) yn fath o ganiatâd dros dro i aros sy’n rhoi mynediad at gyllid cyhoeddus i oroeswyr diymgeledd sydd ar fisa priod / partner am 3 mis tra’u bod yn gwneud cais am ganiatâd amhenodol i aros dan y Rheol Trais Domestig. Mae hyn yn disodli caniatâd cyfredol y goroeswr i aros (fisa priod/partner), sy’n golygu na all y goroeswr ddychwelyd at eu fisa priod/partner.

### Sut ydw i’n asesu a allai goroeswr fod yn gymwys i ymgeisio am Ganiatâd Amhenodol i Aros dan y Rheol Trais Domestig?

Y pwynt cyntaf i’w gofio yw nad eich rôl chi yw pennu a yw rhywun yn gymwys ai peidio. Rhaid i hyn gael ei asesu gan ymgynghorydd mewnfudo rheoledig neu gyfreithiwr. Fodd bynnag gall y cwestiynau canlynol helpu i roi syniad i chi a allai goroeswr fod yn gymwys ai peidio:

**Cwestiwn 1: ai fisa partner neu briod yw caniatâd diweddaraf y goroeswr i aros?**

Ie = Ewch i’r cwestiwn nesaf. Na = nid yw’r goroeswr yn gymwys.

**Cwestiwn 2: oes gan briod neu bartner y goroeswr ganiatâd amhenodol i aros yn y DU neu ddinasyddiaeth Brydeinig?**

Oes = Ewch i’r cwestiwn nesaf. Nac oes = nid yw’r goroeswr yn gymwys.

**Cwestiwn 3: ydy perthynas y goroeswr gyda’r priod/partner wedi chwalu oherwydd cam-drin domestig dan ddiffiniad y Swyddfa Gartref o gam-drin domestig? (cofiwch y gall aelodau o’r teulu yn ogystal â phartneriaid/cynbartneriaid gyflawni cam-drin domestig)**

Ydy = y goroeswr yn debygol o fod yn gymwys. Nac ydi = y goroeswr yn annhebygol o fod yn gymwys.

### Rwy’n cefnogi goroeswr a oedd ar fisa priod/partner sydd wedi ffoi oherwydd cam-drin domestig ond mae eu fisa wedi dod i ben - a allant ddal i wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros yn y DU o dan y Rheol DV?

Gall. Nid oes ots a yw’r fisa wedi dod i ben - yr hyn a ystyrir yw’r ‘caniatad diweddaraf’.

### Rwy’n cefnogi goroeswr sydd yn barod wedi gwneud cais SET(DV) (caniatad am ILR o dan y Rheol Trais Domestic) ond mae hi'n ddiymgeledd ac angen budd-daliadau. A fedri hi geisio am y DDVC nawr?

Gall. Mae modd iddi newid y gais, ond argymell yn gryf y dylai geisio cyngor gan gyfreithiwr mewnfudo a fydd yn gallu ei chynghori ar y buddion a'r canlyniadau o newid y gais.

### Beth ddylwn i ei wneud os wyf i’n meddwl y gallai rhywun rwyf i’n ei chefnogi fod yn gymwys i ymgeisio am ganiatâd amhenodol i aros dan y Rheol Trais Domestig?

Cefnogi ac annog y goroeswr i gael apwyntiad gyda chynghorydd mewnfudo rheoledig neu gyfreithiwr.

### A gaf i roi cyngor i’r goroeswr ar ei hopsiynau mewnfudo?

Na chewch – mae’n drosedd i unrhyw un nad yw’n gynghorydd mewnfudo rheoledig neu gyfreithiwr roi cyngor i unrhyw un ar ei opsiynau mewnfudo.

### Gaf i gynorthwyo’r goroeswr i wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros dan y Rheol Trais Domestig a/neu gais am y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd (DDVC)?

Yn gyfreithlon, cewch. Does dim byd yn y gyfraith sy’n gwahardd neb rhag cynorthwyo ymgeiswyr i gwblhau eu ceisiadau (e.e. trwy gyfieithu a llenwi ffurflen). Fodd bynnag, cynghorir eich bod yn ceisio cymorth gan gyfreithiwr mewnfudo i gwblhau’r ceisiadau hyn – mae hwn yn dod dan gwmpas cymorth cyfreithiol. Cofia na gewch roi cyngor ar ba geisiadau y dylai’r goroeswr gwblhau gan y byddai hyn yn cyfrif fel cyngor mewnfudo.

### Yw’r gais DDVC yn hir?

Nac ydy. Dim ond 9 tudalen o hyd yw hi. Gellir ei lawrlwytho yma.

### Faint mae’n costio i wneud cais am y DDVC?

Dim. Mae’r gais am ddim.

**Oes angen prawf adnabod ffurfiol ar y goroeswr er mwyn ceisio am y DDVC?**

Nag oes. Nid yw'r gais yn mynnu unrhyw ddogfennau adnabod.

**Mae ceisiadau am ganiatâd amhenodol i aros yn ddrud. A fydd ein gwasanaeth yn gorfod talu cost y cais os yw'r goroeswr yn ddiymgeledd neu'n methu â fforddio'r ffi am reswm arall?**

Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn nodi y bydd unigolyn sy'n ddiymgeledd wedi'i eithrio rhag talu'r ffi ymgeisio am ganiatâd amhenodol i aros (ILR) fel dioddefwr trais domestig. Mae rhywun yn cael ei ystyried yn ddiymgeledd os yw naill ai:

- nad oes ganddi lety digonol nac unrhyw fodd i'w gael (p'un a yw eu hanghenion byw hanfodol eraill yn cael eu diwallu ai peidio), neu
- efo llety digonol neu'r modd o'i gael, ond heb fodd i ddiwallu eu hanghenion byw hanfodol eraill.

Noda'r canllawiau ymhellach bod yn rhaid i ymgeisydd sy'n honni ei fod yn ddiymgeledd:

- gyflwyno'r cais am ILR (SET (DV)) ond peidio a thalu'r ffi benodol
- *ddarparu tystiolaeth* nad oes ganddynt fodd i dalu'r ffi benodol.

Mae'n bwysig iawn darparu tystiolaeth ddigonol o ddiymgeledd yn y gais gychwynnol - gweler canllawiau'r Swyddfa Gartref yma.

Mae hyn yn rhywbeth y bydd cynghorydd mewnfudo rheoledig neu gyfreithiwr yn gallu rhoi cyngor arno.

## Asesiad a Chymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol

**Oes rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal asesiad o anghenion goroeswyr sy'n oedolion yn ogystal ag unrhyw blant?**

Oes – mae'r trothwy sy'n sbarduno dyletswydd y gwasanaethau cymdeithasol i asesu'n isel iawn i oedolion a phlant. **Oedolion:** *"Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod ar oedolyn anghenion am ofal a chymorth"* (adran 19 *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*). **Plant:** *"Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod angen gofal a chymorth ar blentyn yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu gan deulu'r plentyn" (adran 21 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).* **Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys beth bynnag yw eu statws mewnfudo.**

**Oes rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gyllido anghenion gofal a chymorth goroeswyr tra bo'r cais ar waith?**

Nac oes - does dim dyletswydd i gyllido anghenion gofal a chymorth unigolion/teuluoedd wrth aros am ganlyniad yr asesiad. Fodd bynnag, mae ganddynt **bŵer** i ddarparu'r cymorth hwn a dylent ystyried a fyddai methu â darparu'r cymorth interim hwn yn torri unrhyw rai o'u dyletswyddau trosfwaol dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, yn enwedig hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth.

### Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwrthod cynnal asesiad o anghenion mam y plentyn/plant. Beth allaf i ei wneud?

Anfon llythyr at y gweithiwr cymdeithasol, rheolwr a chyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol oedolion a/neu blant yn eu hatgoffa am eu dyletswyddau dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (gweler Rhan 3 y pecyn cymorth hwn am dempled).

Os ydych chi neu gydweithiwr wedi cwblhau hyfforddiant e-ddysgu DPG ar Gyfraith Gyhoeddus (gweler Rhan 4 y pecyn cymorth hwn) ac nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymateb neu'n parhau i wrthod eich cais am asesiad, cwblhewch Lythyr Protocol Cyn Dwyn Achos a'i anfon at gyfreithwyr DPG i'w wirio am gywirdeb cyfreithiol cyn ei anfon at reolwr a chyfarwyddwr/wyr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

### Pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiad o anghenion?

Yr awdurdod lleol yn yr ardal lle mae'r person / pobl sydd angen asesiad yn cyflwyno. Mewn geiriau eraill, os yw goroeswr yn ffoi o Gaerdydd i loches menywod yn Wrecsam, a bod y darparwr lloches yn Wrecsam yn gwneud cais i'r gwasanaethau cymdeithasol am asesiad o anghenion, awdurdod lleol Wrecsam sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiad. Eglurir hyn yn adrannau 19 (2) 21 (2) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.

### Yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu cymryd plant y goroeswyr mewn i ofal?

Mae achosion wedi bod lle mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi bygwth rhoi plant goroeswyr mewn gofal. Does dim sail gyfreithio ar gyfer gwneud hyn heblaw ei fod er budd gorau / llesiant y plentyn (e.g. lle mae'n angenrheidiol er mwyn eu diogelu rhag niwed lle mai ffynhonell y niwed yw rhiant/gofalwr y plant).

### Faint ddylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol dalu er mwyn cwrdd ag anghenion gofal a chymorth?

Nid oes unrhyw gyfraith sy'n nodi faint, neu ar ba ffurf, y mae angen i'r gwasanaethau cymdeithasol ddarparu cefnogaeth. Fodd bynnag, mae disgwyliad cyffredinol bod yn rhaid ymdrin ag "anghenion byw hanfodol" yr unigolyn / teulu. Mae dyfarniad cyfreithiol ar gael (yn ymwneud â'r maen prawf "anghenion byw hanfodol" mewn cymhwysedd Cymorth Lloches) sy'n enwi'r canlynol fel anghenion byw hanfodol (yn ogystal â chynhaliaeth):

- nwyddau cartref hanfodol fel powdr golchi, deunyddiau glanhau a diheintydd;
- cewynnau, llaeth fformiwla a gofynion arbennig eraill mamau, babanod a phlant ifanc iawn; meddyginiaeth heb bresgripsiwn;
- a'r cyfle i gynnal perthnasoedd rhyngbersonol ac isafswm cyfranogiad mewn bywyd cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol.

Roedd y dyfarniad hefyd yn nodi bod y costau sy'n gysylltiedig â theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i fynd i apwyntiadau gydag ymgynghorwyr cyfreithiol, lle nad yw cymorth cyfreithiol yn talu am hyn; a gallai galwadau ffôn i gadw cysylltiad â theuluoedd a chynrychiolwyr cyfreithiol, ac er mwyn cyfathrebu angenrheidiol i ddatblygu eu hawliadau lloches, hefyd gael eu hystyried yn 'anghenion byw hanfodol'. Gweler crynodeb o'r dyfarniad yma.

## Ceisiadau a Chymorth Lloches (Asylum)

**Beth ddylwn i ei wneud os nad oes gan oroeswr rwyf i'n ei chynorthwyo ganiatâd cyfredol i fod yn y DU (e.e. mae wedi aros yn hirach na'r cyfnod fisa a/neu wedi dod i mewn heb ganiatâd) ond y byddai mewn perygl o niwed pe bai'n dychwelyd i'w gwlad wreiddiol?**

Os gallai fod perygl o niwed e.e. o'r hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd' pe bai'n dychwelyd i'w gwlad wreiddiol, gallai fod yn gymwys i wneud cais am loches (asylum). Gallwch geisio cyngor (am wasanaethau cymorth) gan Asylum Appeals Support Project i ystyried a allai hyn fod yn opsiwn, a gallant hwy eich cynghori ar eich camau nesaf i gynorthwyo'r goroeswr (gweler Rhan 6 y pecyn cymorth hwn).

Mae'n bosibl y byddai hi hefyd yn gymwys i wneud cais o dan reolau amddiffyn dyngarol - felly mae'n bwysig ei bod yn gweld cyfreithiwr i archwilio'r holl opsiynau posibl.

**Mae gan oroeswr rwyf i'n ei chefnogi gais am loches ar waith. Ydy hi'n gymwys am gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol?**

Er y gallai fod yn gymwys am gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, bydd yr awdurdod lleol yn dadlau y dylai hi (ac unrhyw ddibynyddion) fod yn derbyn cymorth gan y Swyddfa Gartref drwy eu Cynllun Cymorth Lloches. Os yw cymorth adran 95 y Swyddfa Gartref wedi'i wrthod iddi, a'i bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd am gymorth gwasanaethau cymdeithasol, yna gallai fod yn rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ymchwilio pam fod cymorth y Swyddfa Gartref wedi'i wrthod iddi fel rhan o asesiad o anghenion.

Yn achos plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches, noder mai'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddiwallu eu hanghenion, nid y Swyddfa Gartref.

## Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM)

### Beth sy'n digwydd os wyf i eisoes yn cynorthwyo rhywun oherwydd cam-drin domestig a'i bod yn dod yn amlwg y gallai fod yn ddioddefwr y fasnach mewn pobl/caethwasiaeth fodern?

Os nad ydych chi'n sefydliad 'ymatebwr cyntaf' dylech gysylltu â Bawso neu Llwybrau Newydd (neu Fyddin yr Iachawdwriaeth) yn y lle cyntaf, gan ddibynnu ar y math o gam-fanteisio mae'r unigolyn wedi'i ddioddef. Mae ganddyn nhw ddyletswydd i atgyfeirio i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol os ydynt yn credu y gallai rhywun fod yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern neu'r fasnach mewn pobl.

## Cymorth Cyfreithiol

### Beth yw Cymorth Cyfreithiol?

Cymorth Cyfreithiol yw cymorth a roddir i bobl nad ydynt yn gallu fforddio talu am gyngor cyfreithiol. Os yw eich achos yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol, bydd y llywodraeth yn talu cost cyngor a chynrychiolaeth.

### Ai cronfa gyhoeddus yw Cymorth Cyfreithiol?

Nage. Nid yw cymorth cyfreithiol yn cael ei ystyried i fod yn gronfa gyhoeddus er pwrpas mewnfudo.

### Sut ydw i'n gwybod a yw'r unigolyn rwy'n ei chefnogi'n gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn perthynas â materion mewnfudo?

Mae goroeswyr cam-drin domestig sydd yn gymwys am y Rheol DV hefyd yn gymwys am gymorth cyfreithiol ar gyfer ceisiadau mewnfudo, fel y mae goroeswyr caethwasiaeth fodern neu'r fasnach mewn pobl sydd wedi derbyn 'penderfyniad sail resymol cadarnhaol'.

Mae achosion lloches (asylum) a diogelu dyngarol yn gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol. Mae cymorth cyfreithiol hefyd ar gael ar gyfer achosion sy'n ymwneud ag Erthyglau 2 a 3 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mewn geiriau eraill, mae'r ceisiadau hyn i gyd yn seiliedig ar y risg i unigolyn/teulu a'u hofn pe bai'n rhaid dychwelyd i'w gwlad wreiddiol. Gallwch wirio a yw cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer eich math chi o achos drwy ffonio Cyngor Cyfreithiol Sifil ar 0345 345 43 45 neu ymweld â gwefan UK Gov yma.

### A all y rhai sydd â NRPF neu fathau eraill o reolaeth fewnfudo gael gafael ar gymorth cyfreithiol ar gyfer cyfraith teulu (gan gynnwys gorchmynion peidio â molestu a gorchmynion eraill sy'n ymwneud â cham-drin domestig)?

Gallwn, cyhyd ag y gallant dystiolaethu nad oes ganddynt y modd ariannol i dalu'r costau cyfreithiol eu hunain. Oherwydd nad yw cymorth cyfreithiol yn cael ei ddiffinio fel cronfa gyhoeddus at ddibenion mewnfudo, nid oes ots a oes gan rywun NRPF.

### Ydy pob cyfreithiwr mewnfudo'n cynnig gwasanaethau dan gymorth cyfreithiol?

Nac ydy – a cheir prinder cyfreithwyr sy'n cynnig cyngor a chynrychiolaeth dan gymorth cyfreithiol.

### Ble allaf i ddod o hyd i gyfreithwyr cymorth cyfreithiol?

Gallwch chwilio gwefan Ceisio Cymorth Cyfreithiol Llywodraeth y DU yma.

Hefyd gallwch ymuno â **FLOWS** fel darparwr gwasanaeth i gael mynediad at eu cronfa ddata o bartneriaid FLOWS eraill sy'n cynnwys cyfreithwyr mewnfudo sy'n darparu cymorth cyfreithiol (gweler Rhan 6 y pecyn cymorth hwn).

Os na allwch chi ddod o hyd i gyfreithiwr cymorth cyfreithiol, mae **Cyfiawnder Lloches Cymru'n** cynnig cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth am ddim i fudwyr sydd â statws mewnfudo ansicr (unwaith eto, gweler Rhan 6 y pecyn cymorth hwn).

## Cwestiynau Ychwanegol

### A oes gan blant goroeswyr sydd â statws mewnfudo ansicr hawl i brydau ysgol am ddim?

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn darparu rhestr o daliadau cymorth sydd, os yw rhieni plentyn neu berson ifanc yn eu derbyn, yn rhoi hawl iddynt gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn cynnwys rhieni sy'n derbyn cymorth lloches (asylum support), ond nid yw'n sôn am y rheini ar gymorth gwasanaethau cymdeithasol a / neu gymorth NRM. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol unigol yn gweithredu eu polisi eu hunain ar hyn, a gall hyn fod yn wahanol o un ardal i'r llall.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymestyn cymwystra prydau ysgol am ddim dros dro i gynnwys plant rhai teuluoedd sydd ag NRPF - gweler y canllawiau yma.

### Mae gennym gleient sydd â NRPF ond sydd wedi hawlio budd-dal plant a budd-daliadau eraill yn llwyddiannus. Beth ddylen ni ei wneud?

Canfod a oes ganddi fynediad cyfreithlon; os yw hi wedi bod yn hawlio trwy gamgymeriad, cefnogwch hi i roi'r gorau i hawlio. Bydd yn rhaid iddi dalu'r budd-dal plentyn yn ôl a gallai parhau i hawlio beryglu ceisiadau yn y dyfodol am newidiadau i'w statws / amodau mewnfudo.

### A all fy nghleient wneud cais i gael yr amod NRPF ar ei habsenoldeb i aros wedi'i godi?

Gall - os yw ei chais ar sail hawl i fywyd teuluol / hawliau dynol, ac y medrir profi ei bod yn ddiymgeledd / mewn perygl o fod yn ddiymgeledd, mae'n bosibl ei bydd yn gymwys i wneud cais. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod hyn yn rhywbeth sy'n cael ei archwilio gydag ymgynghorydd mewnfudo rheoledig neu gyfreithiwr; gall fod opsiynau eraill sy'n well.